Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Bryncethin
# Y Pafiliwn Rygbi
# Heol Blackmill
# Bryncethin
# Pen-y-bont ar Ogwr
# CF32 9TA

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2014**

**gan**

**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 07/01/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Bryncethin yn lleoliad ym Mryncethin, yn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr.  Mae'n cyfarfod ym mhafiliwn rygbi'r pentref.  Mae'r lleoliad ar agor am bum bore'r wythnos.  Mae gan y lleoliad pedwar aelod o staff.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 24 o blant.  Mae'n derbyn plant rhwng dwy a phedair oed.  Ar adeg yr arolygiad, roedd chwech o blant yn mynychu, un ohonynt wedi'i hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae'r holl blant o darddiad Gwyn Prydeinig.  Ychydig iawn o blant sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf.  Mae gan ychydig blant anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r arweinwyr wedi bod yn ei swyddi er Ebrill 1999.  Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym Mehefin 2014 a chan Estyn yn Rhagfyr 2008.

# Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Digonol |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn ddigonol oherwydd:

- y cynllunio priodol o brofiadau dysgu;
- y berthynas lwyddiannus rhwng oedolion a phlant.
- yr addysgu addas;
- y prosesau asesu boddhaol; a'r
- gofal, cymorth ac arweiniad da ar gael i'r plant.

Fodd bynnag:

- mae diffyg adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh);
- mae cyflwr cyffredinol yr adeilad a'r cyfleusterau dan do yn effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth yn anffafriol; ac
- mae'r ardal tu allan yn annigonol.

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- mae gan y lleoliad gofnod boddhaol o weithredu newidiadau;
- y systemau hunan arfarnu a chynllunio strategol priodol; ac
- mae agwedd gadarnhaol gan y staff tuag at ddatblygiad a hyfforddiant.

Fodd bynnag:

- mae'r cydweithio gydag asiantaethau allanol yn datblygu'n araf; ac
- nid yw natur drwyadl a chadernid y pwyllgor rheoli wedi eu sefydlu.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i’r lleoliad:

A1 Ymestyn y ddarpariaeth a’r defnydd o gyfarpar TGCh

A2 Gwella ansawdd yr addysgu, yn enwedig yn y Gymraeg, i herio plant yn unol â’u galluoedd

A3 Sicrhau bod asesiadau rheolaidd yn arwain yn uniongyrchol at y camau nesaf yn dysgu’r plant

A4 Datblygu a chyfoethogi’r adnoddau a phrofiadau, yn enwedig yn yr ardaloedd allanol

A5 Gwella’r cynllunio strategol a’r hunan arfarnu i effeithio’n llawn ar y ddarpariaeth o’r profiadau dysgu, addysgu a’r amgylchedd dysgu

A6 Datblygu rôl y pwyllgor rheoli i sicrhau eu bod nhw’n gwerthuso a monitro arferion y lleoliad yn rheolaidd

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Dim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r cynllunio'n briodol. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n addas ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol a phresennol y plant. Mae cyfleoedd boddhaol ar gael i bob plentyn i ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm. Gosodir amser yn wythnosol i'r arweinwyr a'r staff drafod y cwricwlwm a gweithgareddau'r themâu.

Mae gan y plant y rhyddid i ddewis eu tasgau a'u gweithgareddau eu hunain. Nid yw'r rhan fwyaf o weithgareddau yn ddigon heriol i'r plant i ddatblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol mewn llythrennedd, rhifedd, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd a datblygiad corfforol a chreadigol. Mae'r mwyafrif o oedolion yn cyfathrebu'n ddigonol â'r plant yn y Gymraeg.

Nid yw'r cynllunio a'r ddarpariaeth o'r medrau technoleg gwybodaeth yn effeithiol. Nid oes digon o gyfleoedd a defnydd o gyfarpar technoleg gwybodaeth ar gael, er mwyn datblygu medrau'r plant ymhellach. Mae'r holl blant yn datblygu eu medrau meddwl yn addas drwy weithgareddau fel creu dynion eira allan o ddeunyddiau gwahanol, dylunio ac addurno coeden Nadolig ac arbrofi gyda reis a dŵr.

Mae'r lleoliad yn ymweld â chyfleusterau lleol fel y siop a'r parc. Mae ymwelwyr achlysurol yn gwella profiadau dysgu plant yn ddigonol. Er enghraifft, mae ymweliadau gan y deintydd ac anifeiliaid gwahanol yn ychwanegu diddordeb at y cwricwlwm, sy'n datblygu ac ymestyn profiadau'r plant yn briodol.

Mae'r lleoliad yn rhoi pwyslais addas ar draddodiadau a dathliadau Cymru, fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod Santes Dwynwen.

Darperir cyfleoedd da hefyd i'r plant ddatblygu dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn dathlu'r Flwyddyn Newydd

Tsieineaidd a Diwali. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu'r plant i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r byd ehangach a datblygu eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang yn effeithiol.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan y staff y wybodaeth briodol am ddatblygiad plant a dealltwriaeth ddigonol o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas bositif rhwng yr holl staff a'r plant. Mae rôl addas gan y staff wrth gynllunio'r cwricwlwm a gwneir y defnydd gorau o'u harbenigedd. Fodd bynnag, nid yw'r staff yn gosod amcanion dysgu clir ar ddechrau pob gweithgaredd ffocws i sicrhau fod plant unigol yn cael eu herio yn unol â'u galluoedd.

Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol. Maent yn gadael i'r plant ddewis gweithgareddau sydd dan gyfeiriad oedolyn neu i weithio'n annibynnol. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r staff yn ymyrryd yn ormodol ac nid ydynt yn caniatáu i'r plant i ddatblygu eu medrau annibynnol yn llwyddiannus.

Mae'r mwyafrif o staff yn modelu'r iaith Gymraeg yn gymwys i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu'r plant. Maent yn annog y plant i werthuso'n synhwyrol wrth iddynt drafod storïau, siapiau a'r tywydd. Yn yr adeilad, mae'r staff yn darparu amgylchedd boddhaol sy'n sicrhau fod pob plentyn yn cymryd rhan ac yn mwynhau. Fodd bynnag, nid yw'r addysgu yn yr awyr agored yn ysgogol na'n heriol.

Mae gweithdrefnau asesu priodol yn bodoli. Mae'r staff yn cwblhau cofnodion o lwyddiannau'r plant yn effeithlon. Nid yw'r asesiadau yn arwain gyda digon o fanylder at dargedau plant unigol a'r camau nesaf yn eu haddysg. Mae rhieni a gofalwyr yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y lleoliad ddarpariaeth effeithiol ar gyfer sicrhau iechyd, lles, datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae'r staff yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn gyson trwy weithgareddau bob dydd. Maent yn annog y plant yn gyson i hyrwyddo eu hunan-barch a'u hunanhyder. Rhoddir cyfleoedd da i blant fyfyrio, trafod eu teimladau a chymryd eu tro.

Mae amser byrbryd yn achlysur cymdeithasol. Ar yr adegau hyn, mae cyfleoedd synhwyrol ar gael i'r plant drafod sut maent yn bwyta'n iach a phwysigrwydd cynaliadwyedd. Mae'r lleoliad yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae cyfleoedd da ar gael i bob plentyn i ail-gylchu papur, cardbord a chartonau plastig. Mae cyfleoedd achlysurol i blant ddysgu am sut mae pethau yn tyfu a sut i ofalu am yr amgylchedd.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r lleoliad yn cynnig amgylchedd diogel. Caiff y drysau eu cloi ac fe'u hagorir gan aelod o staff yn unig. O ganlyniad, ni all neb ddod i mewn ac ni all plentyn adael ar ei ben ei hun. Cymerir gofal da gan y staff pan fydd plant yn cael eu casglu i sicrhau eu bod yng ngofal eu rhieni neu ofalwr hysbys.

Mae prosesau cadarn ar waith i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r staff yn adolygu cynnydd y plant yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod unigolion sy'n cael eu hamau o fod ag angen cymorth ychwanegol yn cael eu nodi effeithiol. Mae'r staff yn trafod y rhain gyda'r asiantaethau priodol. Yr arweinwyr yw'r cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn gwneud defnydd effeithlon o'r gweithdrefnau angenrheidiol ar gyfer cefnogi plant ag anghenion ychwanegol.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r lleoliad, drwy'r gweithgareddau dyddiol a'r agwedd a fabwysiedir gan y staff, yn hyrwyddo ethos positif. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm addas. Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n helpu i ddileu aflonyddwch neu ymddygiad gormesol yn briodol.

Mae'r gymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol iawn. Defnyddir arbenigedd staff yn effeithlon i oruchwylio gweithgareddau. Mae ganddynt gymwysterau addas a phrofiad cadarn o weithio gyda phlant ifanc. Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau prin yn synhwyrol i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant, sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o gyfrifoldeb yn dda.

Mae defnydd y lleoliad o'r adeilad yn dda. Fodd bynnag, mae'r cyflwr cyffredinol a'r cyfleusterau dan do yn effeithio ansawdd y ddarpariaeth yn anffafriol. Nid oes ddarpariaeth o ardal awyr agored penodol ar gyfer y lleoliad. Mae'r rhain yn ddiffygion pwysig.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r staff yn deall eu rolau yn llawn ac yn cydweithio'n dda fel tîm. Maent yn defnyddio arweiniad asiantaethau allanol yn achlysurol fel yr awdurdod lleol. Mae'r arweinwyr yn cynllunio'n addas i ddarparu profiadau priodol i'r plant. Mae ethos cadarnhaol ac ymrwymiad i ddarparu'r profiadau gorau posib i'r holl blant. Mae'r arweinwyr a'r staff yn canolbwyntio'n effeithiol ar ofal plant unigol.

Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen ddigonol. Nodir blaenoriaethau ar gyfer gwella trwy weithdrefnau hunan arfarnu boddhaol, er enghraifft gwrando ar blant a chynhyrchu ffeiliau unigol o waith y plant. Mae prosesau perthnasol ar waith i sicrhau bod adnoddau ar gael i fodloni'r amcanion gwella.

Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol a digonol, sy'n effeithio'n fuddiol ar ansawdd y ddarpariaeth. Nid yw'r pwyllgor rheoli yn cwrdd i adolygu gwaith y lleoliad. Nid yw rôl y pwyllgor yn fanwl-gywir. Nid yw'r systemau rheoli yn cwrdd â gofynion. Mae'r lleoliad, trwy'r arweinwyr, yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae arweinwyr a staff yn adnabod y lleoliad yn briodol. Maent yn gwybod yn gyffredinol beth y maent yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, nid yw'r argymhellion o'r arolwg blaenorol wedi eu cwblhau'n llawn.

Mae'r lleoliad yn hunan arfarnu'n addas. Mae'n sicrhau cyswllt boddhaol rhwng yr hunan arfarniad a thargedau'r cynllun datblygu. Mae tystiolaeth o arfarniadau buddiol wrth rieni ac asiantaethau allanol yn tueddu cael eu selio ar drafodaethau llafar.

Mae'r lleoliad yn arfarnu meysydd i'w gwella yn ddigonol yn erbyn cyfrifoldebau a graddfeydd amser yn y cynllun datblygu. Mae athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol yn cynnig syniadau newydd i arbrofi â gwahanol ffyrdd o weithio. Er enghraifft, mae hyfforddiant diweddar ar reoli ymddygiad, cynllunio sesiynau a chynllunio i ddatblygu, wedi cryfhau dealltwriaeth yr arweinwyr o'r broses o wella ansawdd. Mae hyn yn cael effaith ddigonol ar ddysgu a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Ceir llyfryn cynhwysfawr ar gyfer rhieni a gofalwyr, sy'n darparu manylion perthnasol iddynt am y lleoliad. Mae ymatebion y rhieni yn yr holiaduron ac yn ystod trafodaethau, yn mynegi eu boddhad â'r lleoliad. Maent yn gwerthfawrogi safonau'r gofal sydd ar gael. Mae'r polisi drws agored yn cynnig cyfleoedd cyson i gwrdd â'r staff.

Erbyn i'r plant adael y lleoliad, maent wedi'u paratoi'n briodol ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn yr ysgol. Mae'r cysylltiadau rhwng y lleoliad a'r ysgolion lleol yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r plant yn gyfarwydd â gweithdrefnau'r ysgol cyn iddynt ddechrau'n amser llawn.

Mae partneriaethau cadarn yn bodoli â'r gymuned. Mae'r bartneriaeth â'r Mudiad Meithrin yn datblygu, ond nid yw'n gwbl sefydlog. Mae hyn yn ddiffyg pwysig. Mae'r bartneriaeth gyda'r awdurdod lleol yn bositif ac yn helpu'r lleoliad i symud ymlaen yn ddiweddar.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Er gwaethaf cyfyngiadau ariannol, mae'r lleoliad wedi cynnal lefel uchel o staffio, sydd â chymwysterau priodol. Mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ac yn rhannu safbwyntiau gofalgar yr arweinwyr. Mae'r staff yn gwneud y defnydd gorau o'r adeilad a'r ardal allanol, fodd bynnag mae'r ystod o brofiadau dysgu yn gyfyng oherwydd yr amgylchedd ffisegol anodd.

Mae hyfforddiant mewnol ac allanol i ddatblygu dealltwriaeth y staff o'u rolau yn cyfrannu'n briodol at gyfeiriad strategol y lleoliad. Gwneir defnydd da o arbenigedd staff penodol er mwyn gwella profiadau dysgu'r plant. Fodd bynnag, nid yw'r natur drwyadl a chadernid rolau'r pwyllgor rheoli wedi eu sefydlu. O ganlyniad, nid yw'r arweinwyr yn nodi manylion gwariant ac ansawdd y ddarpariaeth yn ddigon effeithiol.

Mae’r cynlluniau datblygu yn addas ac maent yn canolbwyntio'n briodol ar wella’r ddarpariaeth.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth digonol am arian, oherwydd ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |